

Cystadleuaeth y Goron

Ffugenw: Cynwal

Buddugol: Heledd Glyn Jones Tŷ'n

**Rhos, Glantwymyn, Machynlleth,
Powys**

Gwawrio

***"Hope is a good thing, maybe the best of things and no good thing ever dies."
The Shawshank Redemption.***

Bore bach

*Mae gwybod bod 'na fory yn ddigon da i mi,
Cysga'n dawel heno- dwi yn dy ymyl di.*

Linda Griffiths

Sbeciodd llygedyn cyntaf o olau ysgafn y wawr drwy gil y ffenestr.

Yno ar y gwely gorwedda Elin yn eiddgar yn aros am liw gwan y bore bach.

Datglymodd y wawr ei hun yn ara' deg, fel petai'n rhannu cyfrinach. Ychydig bach a phob yn dipyn. Arhosodd Elin.

Dadwisgodd y wawr ei hun i bob twll a chornel yn dawel a diymhongar. Doedd ei phresenoldeb ddim yn swnllyd ond roedd yn amlwg yno, mae wedi bod yno erioed.

Tu allan roedd y byd yn deffro'n dawel, doedd dim brys.

Mae rhyw lonyddwch i'r bore. Rhyw lonyddwch sy'n anodd i'w brofi ar amser arall o'r dydd – fel petai dim ond ni a natur yn bod. Rhyw lonyddwch cyn i'r dydd a'r byd go iawn ddeffro.

Cryfhaodd lliwiau'r wawr, o liwiau pinc ysgafn i liwiau euraidd. Gallai Elin deimlo'r lliwiau yn ei chusanu yn ysgafn ar ei hwyneb, yn sibrawd, yn brwsio'i boch. Gyda phob ton o oleuni a ddaeth drwy gil y ffenestr roedd Elin hefyd yn cryfhau, yn deffro i'r byd.

Ar y llawr roedd bag a'i lond o ddillad. Roedd ffôn symudol hefyd – wedi ei ddiffodd. Doedd hi ddim am ei roi ymlaen, ddim y bore yma.

Blinder ... yn troi'n ymddiheuriad ... yn "wna i ddim eto, mi ga i help, plis Elin ...!!"

Yr erfyn gwag.

“Mi wyt ti fy angen i Elin.”

Atseiniodd ei lais yn ei chlust.

“Dwyt ti’n neb hebddda i.”

Sylwodd Elin ar y wawr yn tasgu’r goleuni o amgylch yr ystafell.

Cododd ei phen yn araf, tarodd olwg sydyn arni ei hun yn y drych,
cyn rhewi.

Syllodd Elin ar y ddynes a syllai’n ôl arni.

Llygaid tywyll pefriog a gwallt hir euraidd. Tlysni.

Ond, ni welai Elin ddim o hynny, yr unig beth a welai hi oedd y cysgod tywyll.

Y clwyf.

Y cleisiau.

Fel y wawr roedd y cleisiau yn brysur aeddfedu, yn deffro i’r byd.

Trodd Elin i chwilota am ei cholur, roedd hi’n hen law erbyn hyn ar fendio at glais.

Ail natur oedd gorchuddio ei gwedd gyda haen o golur ... i guddio’r gwir.

Hawdd oedd cuddio’r loes a thaenu’r powdr dros ei hwyneb, hawdd oedd paentio ei
hwyneb a siapio ei gwen. Roedd hi’n athrylith ar guddio.

Doedd cleisiau ei hwyneb yn ddim o’u cymharu â’r rhyfel oedd yn mynd ymlaen yn ei
phen.

Doedd dim posibl mendio llanast ei meddwl wrth i’r niwl deyrnasu a’i thynnu i bob
cyfeiriad.

Y storm yn corddi’n ei phen. Y cwestiynau heb atebion.

Ei diffyg hunan hyder. Ei meddwl ar chwâl.

Ond, dim heddiw. Roedd blas newydd ar heddiw. Roedd rhyw deimlad newydd i
heddiw. Teimlai fel petai’n deffro o drwmgwsg.

Oedd, roedd heddiw’n wahanol. Wrth i oleuni’r dydd fusnesu ei drwyn i mewn i’r
ystafell gwyddai Elin fod rhywbeth yn ysbryd y dydd.

Dyn â wŷr beth ... ni allai roi ei bys arno, ond fe’i teimlai, roedd yn sicr o hynny.

Wrth i olau’r dydd gryfhau, magodd Elin ei chryfder – rhyw nerth a ddeuai o fêr ei
hesgyrn nad oedd wedi ei deimlo o’r blaen.

Tasgodd lliwiau cryfach y dydd drwy’r ffenestr, agorodd y llenni gan groesawu
tonyddiaeth o felyn a phiws melfedaidd i’r ystafell.

Roedd popeth yr oedd Elin ei angen yma.

Dyma fore cyntaf gweddill ei bywyd. Dyma’r bore ble’r oedd addewid am fory gwell.
Ac er fod un lygad yn glep ar gau, gallai weld yn glir.

Oedd, roedd hi wedi cael ei heffeithio gan y boen,
ond nid oedd wedi cael ei diffinio ganddo.

Wrth i'r bore ddawnsio o gwmpas yr ystafell a lledaenu ei hud, daeth symudiad o'r
gwely.

“Mam?”

“Dwi yma Begw ... paid â phoeni, ma' Mam yma.
Bore da nghariad i.”

Mwythodd ei mherch yn ei breichiau.

Oedd, mi roedd hi'n fore da.

Llygad y dydd

Blodyn yw llygad y dydd- mae'r enw wedi ei ysbrydoli gan y ffordd mae'r blodyn yn agor ei betalau'n ysgafn wrth iddi wawrio ac yn eu cau yn y nos, fel pe bai'r lygad yn mynd i gysgu.

Ma' Miss Jems yn deud yn 'rysgol bod Now yn ca'l cathod bach cyn neud i brawf Maths.

Dwi'm yn dalld.

Dwi'm yn gweld o'n deg iawn fod Now yn ca'l cathod bach cyn ca'l prawf a fi'n cal dim byd. Ma Miss Jems wasdad yn deud fod angen trin pawb yr un fath a fod ni gyd yr un peth, ond ma Now yn cal cathod bach, dwi ddim, ma Now yn lwcus.

Wel...dwi reit lwcus go iawn. Jesd mod i ddim 'di deud wrth neb, neb o gwbl, dim hyd yn oed wrth Anni!

Dwi fwy lwcus na Now go iawn, achos ddim dim ond cyn prawf Maths dwi'n ca'l cathod bach, ond dwi'n ca'l nhw bob nos a bob dydd Sadwrn a dydd Sul os dwisho!

Achos ... ma' gen i cathod bach!

Dwi'm yn deud wrth neb achos dwi'n i cuddiad nhw.

Dwi'n i cuddiad nhw yn y granar, uwchben y cwt glo

Tybed be' ma'r rhei bach yn 'i neud yr eiliad yma? Mashwr fod Jam 'di bod yn hela ag yn dwad a mymryn o'i bara menyn adre. Dyna nath ni ddysgu yn dosbarth bore ma –bara menyn – pan mae rhywun yn mynd allan i weithio er mwyn cael byw ac i edrych ar ôl y teulu.

Er dwi'm yn meddwl fod y dair fach arall yn barod i futa 'run bara eto, dim ond llaeth Jam ma nhw'n ei yfed ar hyn o bryd.

Dwi'n cofio'r diwrnod lle nath llygid bach y dair agor am y tro cynta erioed!
Bore Sul oedd hi. Fatha'r arfer, mi o'dd Mam yn eistedd yn ei chader yn y gegin, yn pilio dros yr un rhan o'r foronen ers pum munud, yn edrych tuag at y pellter, fatha'r arfer. Roedd ei llyg'id mor dywyll a bol yr hen fuwch. Pam ddim bol tarw? Dwi rioed 'di bod mewn bol 'run buwch, mashwr fod fy mol i yr un mor dywyll yndydi? Fydd raid fi holi Miss Jems, un dda ydi Miss Jems. Ma hi'n gwbod pooopeth yn y byd.

Beth bynnag, mi odd Dad yn neud 'i waith papur, yn trio chwarae efo rw beiriant tagio newydd ag yn gwylltio'n gacwn. Dyma'n taflu'r peiriant newydd sbon wanlli i'r llawr. A dyma'r peiriant yn torri yn deilchion...yn deilchion! Wel, sôn am weiddi wedyn, mi gafodd Mam gymaint o fraw yng nghanol 'i breuddwyd, nes i bod hi'n torri bach o'i chroen a mi wnaeth ei gwaed hi ddechre crio ar ben y foronen. Futes i 'run tamaid o foron i ginio'r diwrnod hwnnw.

'Nes i heglu hi allan yn syth bin, dwi'm yn lecio gweld Dad yn flin a dwi'n bendant ddim yn lecio gweld gwaed Mam yn crio. Es i fyny i'r granar, lle dwi'n cal bach o lonydd. Ma'r grisie sy'n arwain i fyny i'r granar yn gallu bod reit serth. Dwi'n goro cymryd un cam, traed efo'i gilydd, cam nesa, traed efo'i gilydd a gafael yn dynn yn y wal rhagofn i fi ddisgyn yn bendrimwniwgls i lawr y grisie. Ar ôl cyrraedd brig y grisie dwi'n mynd ar fy "tip toes" ac yn ymestyn am y gliced. Dwi'n ei bwsho i lawr ac mae drws y granar yn agor hefo gwich.

"Miaaaaaaw.!" Dwi'n cofio eu clywed nhw'n mewian, a Jam yn canu brandi.

Tu ôl i'r hen baclothe gwlan ydi lle ma'u nyth nw, hefo'r gwair a'r hen wlân yn i cadw yn gynnes fel tost bore Sul. Mi oedd Jam yn eistedd yn hapus braf a'r tair fechan wedi swatio'n gynnes o'i chwmpas. Lliw coch, euraidd ydi Mar, gyda'i thrwyn bach, smwt yn frowngoch. Mae Ma yn fwy coch hefo twtsh bach o felyn gole, gole, melyn neis, cynnes, ddim fel melyn llachar Mr Huws, lolipop. A wedyn ma Led, yr un fach, sy'n frown i gyd ond am ei choes ôl, sy'n wyn. Ma Led yn edrych fel fod ei goesau ôl wedi bod yn sownd mewn eira, o ma' nw'n ddel. Pethe bach delia erioed.

Dwi'n cofio edrych i lawr yn dawel ar y teulu bach, yn ara bach, mor ara deg bach, (mor araf a ma Nain Ty Uchaf yn cerdded i'r car ar ddiwrnod siopa) dyma eu llygid bach nhw yn agor! Y llygid bach delia erioed. Llygid du, tywyll yn disgleirio yn ôl arna i. Llygid llawn hud, yn berlau bychain. Yn ddwfn ac yn ddirgel. Mi oedd y llygaid yn edrych rhy fawr i'w hwyneb bach ac yn g'neud iddyn nhw edrych hyd yn oed mwy ciwt! Ma'n braf cael rhywun yn edrych i fyny arna i am chenj, yn lle edrych i lawr arna i.

Debyg i lyg'id tywyll Mam, oni bai bod rhai Mam yn bellach i ffwrdd.

Dipyn pellach.

Mae llygaid y dair fach yma yn agos, reit o mlaen i, ac am y tro cynta erioed ma' nhw'n cael gweld y goleuni. Dyma'u eiliadau cynta' o brofi goleuni. Fel eiliadau cynta'r bore wrth i'r ddiwrnod ddeffro, wrth i olau'r haul ddweud fod y bore wedi cyrraedd. Pan mae Dad yn trio codi Mam o'i gwely yn y bore mae'n dweud "Tyrd wan, neith aros yn dy wely ddim gneud dim lles i chdi. Ma'i 'di gwawrio ers tro."

Ond dydi Mam ddim yn gwrandao ar Dad. Aros yn ei gwely mae Mam. Dydi Mam ddim yn gweld gole'r bore fatha fi a Dad.

O! Ellai'm aros i'w gweld nhw! Tybed pa fistimanars ma n'w di bod yn neud heddiw ma? Ddoe nes i ffendio Mar a Ma yn chwarae 'efo hen gynffon a clust oen oedd Dad wedi dorri ar ddiwrnod nodi.

W...dybed?

Tybed os ydi nw 'di galw diwrnod nodi ar ôl Nodi 'i hun?

Ella mai ffermwr odd o ersdalwm.

Digon posib.

Mae'n siŵr fod Jam wedi hen flino ar dendio ar y dair ...neu'r tri?

W! Fu raid i fi weld os oes gan Mar, Ma a Led wijibo 'rôl cyrraedd adre!

...

Dad sy'n nôl fi o'r ysgol heno. Ma llygid Mam wedi mynd yn dywyllach, ac yn bellach eto. Ma Mam yn goro mynd am wylie bach i wella, i wella 'i llygid.

Fu raid fi fynd a tamed bach o fwyd i'r cathod bach heno 'fyd, dybed be neith Dad i swper i fi? Ffishffingyrs gobethio, ma Swsi wrth i bodd efo rheina, ma' bob cath yn mwynhau ffish dydi.

Bîns ar dost ges i swper.

Mi o'dd y bîns yn oer a'r tost fwy fel brechdan lipa. Ond nesi'm deud dim.

Dim ond cau ngheg, cnoi a llyncu.

Dwi'n methu brechdan ffishffingyrs Mam.

'Nes i fynd a bach o fwyd Mot i Jam heno, mi odd hi wedi dotio ag yn llyfu'n llaw i, mi o'dd o'n cosi fel fod yna bry' yn cropian mewn cylchoedd rownd cledr fy llaw i ac mi o'ni'n gallu teimlo ei wisgars yn fy mhigo'n dendar. Dwi wrth fy modd yn chwarae piano ar ei ffwr meddal gan symud fy mysedd o nodyn i nodyn, mae'n fy atgoffa i o groen esmwyth y ceirios sy'n tyfu yn gardd Taid a Nain. O! Mi allwn i roi o-bach iddi drwy'r dydd! Dwi wrth fy modd hefo hi!

...

Dwi'n edrych allan drwy ffenestr fy lloffd i rŵan ac ma' hi'n dywyll bitsh y tu allan.
Dwi'n medru gweld Jam yn neidio o stepen y granar ac yn llithro'n osgeiddig draw at y siediau, mae hi'n hela. Dwi'n ei gweld yn toddi i mewn i ddirgel y nos.
Un glefar ydi Jam a'i bara menyn.
Mam dda ydi Jam.

...

Ma 'na wbeth mawr yn bod. Dydi Mar ddim yn teimlo hanner da. Dwi'm yn meddwl bod hi tri chwarter da, a ma' Miss Jems yn deud fod tri chwarter yn fwy na hanner, felly ma raid bod Mar yn sâl. Ma Mar yn gorwedd ag yn edrych yn bell i ffwrdd, dwi'n siŵr bod nhw bron â cyrraedd lle ma Mam.
Ella fu raid i Mar fynd ar wylie bach fel Mam.

'Nes i ffeindio blode ar gae yr ysgol heddiw 'ma. Llygad y dydd ydi eu henwau nhw, neu llygad llo mawr yn ôl Miss Jems. Ma hi'n well gen i'r enw llygad y dydd. Ma nw'n bethe bach del, petalau gwyn a smotyn mawr melyn yn y canol. Mi oedd Miss Jems yn dweud fod yna rai blodau hefo petalau pinc- rhai gwahanol i'r gweddill. Fel mae Mam yn wahanol i Mamau eraill yr ysgol mae'n siŵr.
Dwi wedi neud cadwen i Mam allan ohonyn nhw, a ma Dad wedi mynd a hi iddi heno, gobeithio fydd hi'n lecio hi. Gobeithio neith hi wisgo hi rownd ei gwddw a neith y gadwen ddod a bach o'r dydd i'w llygid.

...

Dwi'n codi Mar i fyny, ma hi mor ysgafn a pluen. Paid a edrych arnai fel yna Jam!
Ti'n gwbod y medri di nhystio i! O ellai'm coelio fod Mar yn llenwi'n llaw i gyd, pan dwi'n i chosi hi o dan ei gên i drio codi gwen, ddaw na ddim. Dwi'n trio cosi hi o dan ei cheseiliau, fel dwi'n neud i Mam weithie, achos ma hynna'n neud fi chwerthin bob tro!

Ond fel Mam, ddaw na 'run wên.

Dwi'n rhedeg fy mys lawr asgwrn i chefn, ma' hi mor fach, mor bitw bychan bach, a'i bywyd yn fy nwylo i. Fel hyn oeddwn i pan ges i ngheni mae'n siŵr ynde? Yn dwylo Mam, tybed os oeddwn i mor ciwt? Oedd Mam yn rhedeg ei llaw i lawr fy nghefn i? Oedd hi'n chwarae hefo moch i? Oedd fy llygaid i'n edrych i fyny arni hi fel ma Mar yn edrych arna i rwan? Ei llygaid tywyll, mor bell, bell i ffwrdd.

Ma Dad yn deud fod Mam yn gwella, dwi dal ddim yn gwybod be sydd. Dad cau deud. Ond ma'n deud 'i bod hi ar 'i ffordd adre. Well bod hi'm yn cerdded adre, mai'n oer a dydi 'i chot gaeaf ddim efo hi, ma' hi'n hongiau y tu ôl i'r drws lloffd.
Os ydi Mam ar ei ffordd adre, pam eith o ddim i'w chyfarfod hi?

...

Dwi'n clywed sŵn tanio'r moto beic, Dad sydd yna yn mynd rownd y defaid am y trydydd tro heddiw, diolch byth ei bod hi'n adeg wyna a fod gan Dad ddim gormod o amser i fusnesu ar be dwi'n neud, dwi'n cael dipyn bach o ryddid.

Dwi 'di neud yn jobsus, wedi rhoi llond dwrn o gêcs defaid i bob corlan fach ag wedi trio rhoi llaeth i'r oen llywaeth- mae gan yr oen wlân bach cyrliog, gwlân pitw yn chwyrlio'n debyg i gant o gregyn malwod del. Ond 'i lygaid o ydi'r peth delia, llygaid sy'n pefrio, ond ma' na rywbeth melyn o amgylch 'i lygaid ag yn 'i gludo nhw efo'i gilydd. Debyg i Huwcyn cwsg. Dwi'n pigo ag yn pigo i drïo tynnu'r clwy ond bob bore ma' wedi tyfu'n ôl ac yn dallu'r oen bach, druan.

Ar ôl cymysgu powdr y llaeth dwi'n ei dolli i botel, dwi'n tollti mymryn bach o laeth ar fy ngarddwn, dwni'm pam. Ond dwi'n neud achos dyne be' mae Mame yn ei neud hefo babis bach, a'r oen yma ydi mabi bach i.

Mi fydd yn rhaid i mi gofio dweud wrth Dad fod yr oen dal ddim yn sugno potel yn iawn, dwi'n goro gafael yn 'i geg o a'i fforshio i agor cyn tollti'r llaeth i lawr ei gorn gwddw. 'Sgen Dad ddim mynedd neud hyn, mae o'n defnyddio rw linyn hir efo tiwb ar y pen, ma'n rhoi'r llinyn lawr gwddw'r oen ag yn tollti'r llaeth i lawr, mae ei fol yn llawn wedyn diolch i'r beipen.

Dydi Mam ddim yn yfed nac yn bwyta llawer. Pan dwi'n cal tost yn bore ma hi'n cal crystun, i ginio dwi'n cal taten yn popty, ma hi'n cal y crwyn, i swper pan dwi'n cal llond plat o tships, ma hi'n cal tshipsen. Gobeithio nad ydi pwy bynnag sydd efo hi yn dalld bod hi'm yn fwytwraig mawr ag yn fforshio tiwb lawr i chorn gwddw. O Mam druan.

...

Tra dwi'n y tŷ ar ben fy hun dwi'n dringo fyny grisie, dwi wedi hen arfer mynd fyny'r grisie ag yn gwybod fod yne union 9 gris. 1,2,3,4,5,6,7,8,9.

I mewn a fi i lloffd Mam a Dad. Am ryw reswm rhyfedd ma' nghalon i'n pwmpian, wedi cyffroi. Ma' bod yn lloffd Mam a Dad yn teimlo'n ddrwg, dwi'n gwybod mod i ddim i fod yma. Ma 'na oglau gwahanol i'r llofft yma, oglau sydd ddim yn perthyn i'r un stafell arall yn y tŷ. Llofft fawr ydi hi gyda gwely anferthol yn y canol, mae 'na lun o Dad a Mam ar y wal, Mam mewn ffrog wen a Dad yn gwisgo tei posh. Ma Mam yn edrych mor dlws, ei gwallt yn gyrliog a'i llygaid yn pefrio, mor hapus ei byd. Bron nad ydi hi'n Mam.

Dwi awydd gorwedd lawr ar y gwely i gael gweld sut deimlad ydi bod mewn gwely mor fawr...

Dwi'n teimlo mod i mewn pwll nofio! Pam fod angen gwely mor fawr? Pam na allen nhw gael dau wely bach fel fi?

Dwi'm chwaith yn gweld hi'n deg iawn fod Mam yn cael cwmni Dad yn y nos, dwi'n goro bod ar ben fy hun bach yn y tywyllwch, hefo'r bwci-bo's.
Ma Mam yn lwcus, ma' gen hi Dad i edrych ar 'i hôl hi.
Pam mod i'n goro cysgu mewn stafell ar ben fy hun, mewn gwely ar ben fy hun bach?

Ma Anni yn deud fod Dad hi yn cysgu ar sofffa, maraid fod Mam Anni yn fwy dewr na Mam fi.

...

Mae Mam wir ar ei ffordd yn ôl adre!
Cyrraedd prynhawn yma.
Mi fydd hi adre pan fyddai adre o'r ysgol.

Ma' heddiw yn mynd mor ara deg, y cloc ysgol yn tic tocian a dim bys yn symud digon cyflym ...dwi'n siŵr fod na rw ysbryd cas wedi gwthio bys cloc y dosbarth.
Mi ydwi'n cyfri faint o deils sydd ar to y dosbarth.
...dwi'n gallu cyfri 87.

Diolch byth da ni'n gorfod rhoi dwy law hefo'i gilydd i ddweud y weddi.
Am adre!

...

Dwi mor falch o gael Mam yn ôl adre. Ges i ffishffingyrs i swper a 'nes i fynd â darn i Jam. Mi odd hi wrth ei bodd. O'ni mor falch o gael gweld Mam yn ôl adre 'nes i ddechre crio, crio a chrio nes o'ni'n crynu, mi ddoth fy nghyfrinach allan, o flaen Mam a Dad!

O'ni'n poeni fod Dad am fynd yn flin hefo fi, ond dwi'n meddwl fod o mor falch o gael ffishffingyrs i swper nes 'nath o ddim deud dim. Es i a Mam i fyny i'r granar. Doedd Mar ddim yn ryw siŵr i ddechre ...ddim yn nabod Mam, ond ar ol i mi roi o-bach iddi dyma hi'n dod at ei choed, fatha Mam.

"Ma'r pethe ma'n cymryd amser," chwedl Dad.

Dwi'n meddwl fod Dad yn llygad ei le.

Dau Ran

*Er yn onest ymestyn- ein dwylo
I dawelu deigryn,
Yn y rhwyg, ni ŵyr yr un
Alar yr unigolyn.*

Elwyn Edwards.

Am eiliad yn syth ar ôl deffro yn y bore – mae popeth yn iawn. Dydi'r cof ddim yn teimlo dim poen, dydi'r hiraeth ddim yn llethu, dydi'r meddwl ddim yn cofio.

Dim ond eiliadau.

Eiliadau gorau'r dydd.

O! Am gael rhewi'r eiliad yma a chael ei ail fyw, dro ar ôl tro.

Ond wrth i haul y bore bach sbecian drwy'r ffenest ac i'r eiliad droi yn ddwy ...yna'n dair... mae cogie'r cof yn troi ac mae popeth yn llifo'n ôl, yr atgofion yn saethu'r cof fel bwledi poenus.

Wrth i olau'r wawr ddwysáu ei nerth, dwysáu mae fy meddwl i.

Mae'r flanced drom yn ei hôl.

“Maaaaam!”

Er mai cuddio o dan y flanced fuasai hawsaf a chilio oddi wrth y byd a'i boenau, dydi hynny ddim yn bosib dyddiau yma.

Rhaid codi, rhaid cario ymlaen, rhaid rhoi un troed o flaen y llall, er mor drwm ydi'r flanced.

Dwi'n codi o fy ngwely. Dwi'n gwisgo.

...

“Sbia Mam, sbia!” Mae Megi yn gweiddi mewn rhyfeddod gan bwyntio i fyny at y ffenestr.

“Ma’r cymylau yn edrych fel candi fflos heddiw.”

“Mam... ti’n meddwl fod Nain yn cael blasu’r candi fflos? Ti’n meddwl fod nhw’n neud candi fflos lliwie gwahanol iddi hi?”

Dwi’n chwerthin. Megi fy merch fach annwyl.
O am gael gweld y byd drwy dy lygaid di.

“Siŵr o fod Megi fach, siŵr o fod.” Dwi’n clywed fy hun yn ei hateb.

“Sud deimlad ydi eistedd ar y cymyle ti meddwl Mam? Fydda i’n cal gwneud wbryd Mam?”

“Reit, tyd, well ni hastio’i am yr ysgol ’ne, da’ ni ddim isio bod yn hwyr eto heddiw!”

“Nagoes, a **fi** ydi’r helpwr heddiw!”

Ag i ffwrdd â ni law yn llaw am yr ysgol. Mam a merch, merch a’i Mam. Fy llaw yn plethu’n dwt am y law fechan gan roi o-bach i’n gilydd – daw fel ail natur, y cyffyrddiadau bach. Fy myd yn fy llaw.

“Caru ti Mam, ta-ta.” Rhedodd Megi i mewn i’r ysgol.

Dwi’n cerdded yn ôl am adre a’n meddwl i’n dechrau crwydro.

Yn doedd y bywyd yma mor wahanol i’r hyn ‘nes i ddychmygu. Yr holl mae Mam wedi ei fethu, y bwlch enfawr yn ein byd, y twll heb ei lenwi, y rhywbeth sydd ar goll, yr hiraeth sy’n fy llorio pan fo’n rhaid byw hebddi.

Ond am fywyd hefyd ar yr un gwynt – y mwynhad o gael magu, y pleser dwi’n ei gael o’i gweld yn tyfu o flaen fy llygaid, yn gweld fy adlewyrchiad yn y ferch o ’mlaen, y cariad sydd yn fy nychryn, yr ofn sydd yn fy llorio petai rhaid byw hebddi.

Dwi’n agor y drws i’r tŷ.

Dim sŵn. Dim byd.

Tawelwch!

Braf.

Er mai dim ond toc wedi naw ydi hi, mae’n teimlo fel ‘mod i wedi gwneud diwrnod cyfan o waith yn barod! Dyma ail hanner fy niwrnod i gan fod Megi wedi deffro gyda’r wawr **eto’r** bore ma – fel pob bore arall. Mae hanner awr wedi pump y bore yn teimlo ‘mhell yn ôl, a dwi’n edrych ymlaen am fy ngwely’n barod. Wrth i’r haul godi ac i olau

ysgafn y bore sbecian i mewn,- mae llygaid bach Megi yn deffro yn ysu am y dydd sydd o'i blaen.

Ia, ail hanner fy niwrnod! Fel ail hanner fy mywyd.

Dwi'n teimlo fy mod wedi dechrau mesur fy mywyd yn ddiweddar fel bywyd *cyn Mam* a bywyd *ar ôl Mam*. Roedd fy myd *cyn Mam* yn fywyd mor syml rhywsut... mor saff. Roedd yna rywun ar y byd yma oedd yn fy adnabod yn well na neb arall, rhywun eisiau gwybod am fy mhroblemau bach, yn dathlu fy myd. Roedd pob dim yn iawn yn y byd *cyn Mam* achos roedd gen i Fam doedd? Roeddwn i'n ferch i rywun, roedd gen i rywun i edrych ar fy ôl i'n doedd? Doeddwn i ddim dim ond yn Fam, mi oedd gen i fam i fy ngwarchod i. Mi oedd yna genhedlaeth o fy 'mlaen i fy arwain. Pwy sy'n edrych ar ôl Mam pan dydi Mam ddim yma?

Gwawriodd y dydd ar ddiwrnod cyntaf ail ran fy mywyd.
Ei machlud hi, oedd fy ngwawr i.

Reit, ma' gen i bron i awren i fi fy hun. Dwi angen gwneud y gwlâu, agor ffenestri, twtio'r bathrwm, meddwl be gewn ni swper ... W! Rhaid fi gofio tynnu cig allan o'r rhewgell, rhoi'r golch yn y tumble dryer, gwagu dishwasher...brwsio llawr. Gychwynnai roi llwyth i olchi. Ma'n rhaid i fi daclo'r twmpathau o ddillad budron sy'n llenwi llawr y gegin yma heddiw!

Dwi'n rhawio dilledyn ar ôl dilledyn o ddillad budron i mewn i'r golch a CRASH!
Y Freichled ...

Mae'r lwmpyn cyfarwydd yn ôl yn fy ngwddf.

Dydi'r freichled wedi costio nesa peth i ddim.
Ond mae ei gwerth hi'n fwy na dim.

"Helo! Oes na rywun adre?"

"Haia Budd, fyddai yne rŵan, jysd yn rhoi golch i fynd."

Dwi'n rhwbio halltineb fy nagrau oddi ar fy wyneb ac yn cymryd anadl ddofn cyn wynebu'r byd eto.

Dwi'n rhoi'r golch i fynd ac yn estyn am y jar wag, mae'r freichled yn deilchion.
Dwi'n ei rhoi i mewn yn y jar ac yn cloi y caead yn dynn ar y llanast oddi mewn.

"Sut ydach chi? 'Da chi'n ôl reit?"

Mae Buddug yn holi'n siriol ac yn gwneud ei hun yn gyfforddus.

"lawn sdi.

A chithe acw? Sud mae bod yn ôl yn y gwaith?"

Dwi'n newid trywydd y sgwrs yn ddigon handi.

Mae angen bod yn iawn.

Mae bod yn "iawn" yn haws na cychwyn ar geisio'r gwir.

Wrth i Buddug fynd drwy ei phethau a sôn am hynt a helynt ei chydweithwyr alla i ddim arafu fy meddwl a dwi'n teimlo mwyaf sydyn rhyw fath o atgasedd yn berwi. Sut all bywyd pawb arall fynd yn ei flaen? Mae'r chwerwder a'r casineb yn hollol afresymol! Ond dydi hynny ddim yn eu hatal. Mae nhw dal i saethu drwy fy meddwl. Sut allen nhw fynd yn ôl i fyw eu bywydau? Sut allen nhw?!

Ond mi allen nhw, achos y tro yma, nid nhw sydd wedi profi breichiau galar yn cau yn dynn amdanynt, yn eu mygu.

Mi ddaw galar at ddrws pawb yn ei dro.

Ond, mae'r gnoc yn wahanol i bawb.

...

W dyne be oni angen ei neud- tynnu cig allan o'r rhewgell! Rhaid fi gofio archebu sgidie newydd eto, dwi'n siŵr fod traed Megi'n tyfu yn gynt na neb, dwi angen cofio prynu past dannedd fyd, oooo yyyy be gewn ni i swper? Wbeth hawdd.

Mae'n rhyfedd be dwi'n ysu amdano'n fwy na dim ...ddim y diwrnodau allan yn siopa, ddim y priodasau, ddim hyd yn oed diwrnod Nadolig.

Mae'r hiraeth yn y dydd i ddydd, nid yn y dyddiadau.

Www, rhaid fi gofio trio newid amser nofio wythnos nesaf 'fyd, a dwi angen mynd a Fflei at y fet efo'r goes 'ne a ma raid fi ffonio Taid yn ôl, a ffonio'r ysgol am yr apwyntiad deintydd.

Ond, owff mi fuaswn i'n rhoi'r byd...y byd a mwy i gael agor drws y gegin..
a chael paned hefo Mam.

Mae yna rywbeth am baned wedi cael ei wneud gan rywun arall does?

Ond, mae paned gan Mam yn un go wahanol.

Paned a'i llond o adre.

Paned llawn gofal.

Paned o gysur.

Paned yn llonni'r galon.

Ein byd rhwng dwy gwpan.

Ein byd yn stond am 'chydig.

A phan mae'r baned wedi oeri,
fydd 'na fyth baned debyg yn y tebot eto.

Dwi'n gwagu'r dishwasher, dwi'n cadw'r llestri glan, dwi'n llwytho'r dishwasher eto
'mlaen â hi. 'Sŵn i'n medru ail gynhesu'r lasagne ers neithiwr i ginio a 'na i bilio
'chydig o foron. Mae'r golch wedi gorffen, dillad ar y lein. Cofio am y cig.
Mae pawb yn dweud fod angen *cario ymlaen*.

"Ti angen byw er ei mwyn hi."

"Ma' bywyd yn mynd yn ei flaen."

"Amser – dyne be ti angen."

A'r un ore ... "Tyd wân, 'se hi ddim isio ti fod yn drist."

Yndi, mae bywyd yn tyfu o amgylch y boen – mae bywyd yn ryw fath o gario ymlaen
– yn ehangu o gwmpas yr hiraeth. Ma' bywyd yn brysur a diolch byth am hynny. Y
cig, reit dwi'n mynd i dynnu'r cig allan rŵan!

Ond ...

Mae'r ffôn yn canu.

Aled.

Bore da. Sud ti'n teimlo bech?

lawn 'sdi.

Newid byd

*“Ac fe gipiaist ri rywbeth...
...rhywbeth
Na wyddem ei fod gennym
O’r blaen.”*

Mari George

“Nansi, ty’ d yma am bach, da’ ni isio gair.”

Pan dwi’n clywed y geirie yne, dwi’n gwybod bod gan Mam a Dad rhywbeth reit bwysig i’w ddweud wrtha i. Rhywbeth reit sirrys. Mi oedd Mam yn eistedd wrth y bwrdd a Dad wedi gwneud paned ag yn rhoi mwythe i glust ei gwpan.

Mi o’ni’n gallu deud fod Mam yn nerfys achos roedd hi’n tynnu ar ewin ei bawd, dydi Mam mond yn gwneud hynny pan ma hi’n nerfys. ‘Nes i fynd i deimlo reit rhyfedd mwya sydyn. Mi hedfanodd ‘ne bili pala i fy mol a doedd o’n cau gadael, hedfanodd i bob ochr o mol –mi oedd o wrth ei fodd yn hapus braf yn chwyrlio ag yn dawnsio... ond don i ddim, oni’n teimlo’n swp sâl.

“Rŵan Nansi, mae genna ni newyddion i ti.”

“Newyddion da neu newyddion drwg?” Gofynnais yn ara deg bach.

“Newyddion da! Wel, ‘da ni’n gobeithio dy fod yn mynd i’w weld fel newyddion da.”

“Mwa ha ha! Ha ha ha!”

Chwarddodd Dad a Mam am yn hiiiir, edrychodd y ddau ar ei gilydd, roedd llygaid Mam yn dawnsio, roedd Dad hefyd yn gwenu – gwenu go iawn, ddim gwenu cocshio gwirion lle di’r wen ddim yn cyrraedd y llygid.

Roedden nhw mor hapus.

Braidd dros ben llestri rili.

OMB yda ni’n mynd i Disney?

Llyncais fy mhoer.

“Wel Nansi, ‘da ni’n mynd i gael babi.”

Babi.

Mae Mam yn mynd i gael ...

...babi.

Os dwi'n onest, dwi'm wir yn siŵr os ydi Mam yn deud y gwir, ma' Mam yn gallu deud clwydde weithie, celwydd gole ma' hi'n ei alw fo. Fel y noson o'r blaen 'nes i ei dal hi'n trio dwyn dant o dan fy philw i! Mi udodd Mam mai eisiau dangos fy nant i Dad oedd hi! Ha! Ydi Mam wir yn meddwl mod i mor wirion a hynny i goelio ffasiwn beth?! Dwi'n gwbod yn iawn be odd hi'n 'neud – trio dwyn fy nant i er mwyn iddi hi ei gadw fo o dan ei philw hi er mwyn iddi gael y pres i brynu switis!!

Mam gwirion.

Sili Bili.

Felly na, dwi ddim wir yn coelio Mam tro yma chwaith.

Dwi meddwl mai celwydd arall ydi hyn.

Dwi'n meddwl mai jysd tew ydi Mam.

Ma gen i 'chydig bach o bechod dros Mam rili, bechod fod hi'n gorfod deud celwydde wrtha i, i drio cuddio'r ffaith ei bod yn dew. Fydd rhaid fi ddeuthi fod dim angen iddi boeni, dwi'n ei charu beth bynnag ydi ei maint hi, ond ella y buase cerdded bach mwy yn gwneud lles iddi 'fyd.

Dwi wedi bod yn sylwi ei bod hi'n bwyta dipyn mwy na fi, pan dwi'n cael un darn o dost, mae Mam yn cael dau! Dwi yn cael dwy grempog, mae Mam yn cael tair a dydi ddim yn eu bwyta'n ara deg bach chwaith – ma' hi'n sgloffio'r bwyd lawr ei chorn gwddw fel fod hi methu aros i'r bwyd gyrraedd ei bol. Mae fel ei bod hi'n hanner llwgu a ddim 'di buta ers oes pys! Fel y math o lwgu dwi'n ei gael ar ôl nofio! 'Da chi'n gwybod fel y teimlad ar ôl nofio? Fel fod 'na dwll yn fy mol.

Wel, fel yna mae Mam!

Dwi'm yn dalld pam 'sa Dad ddim yn deud dim chwaith- 'swn i'n bwyta fel hwch 'swn i'n cael gwbod! "Lle mae dy fanars di Nansi?" Mi ella i glywed Dad yn deud wrtha i! Ond feiddia 'i ddeud ffasiwn beth! Bechod, Mam bach. Be newni efo Mam? Mi fydd rhaid fi holi mwy fory.

Mi fydd fory yn ddiwrnod newydd – ag ella fydd Mam 'di anghofio am y lol babi 'ma erbyn y bore!

...

Ych, nachdi wir. Dydi Mam ddim wedi anghofio. Os rwbeth ma hi 'di mynd yn waeth hefo'r holl beth. Ma' hi hyd yn oed wedi deud wrth Nain a Taid! Druan â nhw, dwi'n siŵr eu bod nhw yn ame yr un fath a fi, ond methu deud. Embarasd drosti ella.

Dwi wedi penderfynu bod yn rhaid i mi gwestiynu mwy heddiw, dwi angen gwybod yn union o ble mae'r "babi" 'ma wedi dod.

"Mam...os wyt ti'n disgwyl babi, sud fod y babi yn dy fol di?!"

Ha, cwestiwn da.

Gawn ni weld rŵan os ydi Mam yn gwybod- gan mod i'n gwybod y gwir mi ella i ei dal hi allan. Er mwyn cael babi mae angen mynd ar yr i-pad, mae angen dewis pa fabi 'da chi ei awydd a wedyn mae angen llyncu pil - mae'r pil yna wedyn yn tyfu tu mewn i'r bol. Pan mae'r babi'n barod i ddod allan, mae'n cnocio ar ddrws sbesial a wedyn ma jysd yn neidio ar y sleid ma a wedyn wiiooish allan!

Dwi bach yn siomedig nad ydw i'n cofio bod yn bol Mam, mae'r sleid yn swnio'n hwyl!

"Wel...ym...cer i ofyn i dy Dad." Atebodd Mam reit swta, braidd rhy swta.

Cuddio'r gwir dwi'n ame. Dwi ddim yn wirion sdi, Mam, ond at Dad es i yr un fath.

"Daaaaaad ... sud ma babi yn cyrraedd bol Mam?"

Am rw reswm mae gwyneb Dad yn dechre cochi, ma'n goch fel tomato a'i glustiau'n fflamgoch! Be sy' Dad bach?

O bechod, ella fod Dad ddim yn gwybod y gwir, ella fod Dad ddim eisiau ymddangos fel fod o ddim yn gwybod.

Ond ymhen hir a hwyr, dwi'n cael ateb..

"Hola dy Fam."

...

Ma'r hen sdori wirion 'ma wedi mynd yn ei blaen am yn hir wan, 'sa waeth i Mam ddeud y gwir ddim a jysd cyfadde mai tew ydi hi! Ma hi'n mynd yn debycach i Sali Mali bob dydd, ag wedi dechre rw gerdded yn od, fel rw hwyaden fawr o gwmpas y lle 'ma.

Mi fydd yn rhaid i mi roi pryd o dafod i Mam achos dwi bob amser yn cael ffrau am ddeud celwydd, dwi'n cofio Tomi yn yr ysgol yn deud celwydd am roi toilet rôls yn y toiled a'i flocio, mi nath Tomi orfod aros i mewn am wythnos gyfan am ddeud celwydd! Am faint fase rhaid i Mam aros i mewn am ddeud ffasiwn gelwydd dybed?! O Mam!

...

Hmmm ...mi ddoth Dad a Mam a llun i fi heddiw. Dwi'n dechre rw ame rŵan fod y busnes babi yma... ella, yn wir.

Llun o sgan y babi oedd y llun. Ond iesgob, am fabi hyll. Odd o mor hyll dydw i methu gwneud pen na chynffon ohono – mae'n edrych fwy fel alien na babi. Ma nhw'n dweud fod babis yn hen bethe bach del, wel dydi be bynnag sy'n bol Mam ddim! Dwi jysd wir yn gobeithio fod Mam wedi cael pilsen y babi o rwle saff- mae 'na gymaint o sôn yn yr ysgol am fod yn ddiogel ar lein, be os ydi Mam wedi prynu pilsen siâp od a'i llyncu ac wedi creu anghenfil? Dyna be mae'r llun yn ei ddangos!

Mae Mam wedi rhoi'r llun o'r sgan i fyny ar y ffrij. Yn y bin ddylsa fo fod. Pwy sydd isio edrych ar anghenfil cyn estyn am eu llaeth yn y bore? Am beth od i neud.

Fydd rhaid i fi ddechre rhoi fy nhroed i lawr yma dwi'n meddwl, ddim dim ond Mam a Dad sy'n byw yn y tŷ yma, ond dwi hefyd!

...

O Mam Bach ma Mam yn anferthol, ma hi bron yn fwy na maint eliffant. Go iawn rŵan. Ma hi'n cerdded fel 'sa hi ar ben camel ac yn neud rw hen sŵn gwirion pan mae hi'n plygu lawr i nôl rwbeth oddi ar y llawr. Sôn am ffys.

"Nansi, tyd yma, sydyn!" Gwaeddodd Mam arna i bore heddiw yn llawn cynnwrf – tyd i weld y babi'n symud!

Dwi'n cerdded ling di long lawr y grisiau, ag yn meddwl mae'n rhaid fod y peth'ma wedi cyrraedd, nath Mam ddim sôn mai heddiw odd o fod i gyrraedd chwaith, rhyfedd.

Dwi'n mynd at Mam ag yn disgwyl ei gweld yn dal y peth'ma, ond yn lle hynny ... mae hi wedi tynnu ei thop i fyny, a dwi'n gweld ei bol hi allan i'r byd i gyd gael ei weld! Bobl bach ma Mam yn maaaasive!

"Sbia Nans, sbia!" Ma Mam jysd a byrstio mewn cynnwrf.

Mae hi'n pwyntio at ei bol ac yn sydyn reit mae'r peth'ma yn symud. Ych a fi, am ofnadwy. Dwi bron iawn yn gallu gwneud allan rw droed bach yn cicio – o mam bach mae'n siwr fod hynna'n boenus, a dwi reit siŵr fod y peth'ma'n sownd! Am le annifyr i fod yn sownd. Mashwr fod peth'ma wedi laru ar fod yna. Ma fel bod yn sownd mewn balwn.

"Does 'na ddim lot o le i droi yna fanna Mam," ydi'r unig beth dwi'n ddeud cyn mynd allan ar fy meic.

...

Wel ma'r peth'ma wedi gallu denyg o fol Mam a ma'- wedi glanio yn ein tŷ ni, dwi dal ddim yn gwybod sud ma peth'ma wedi gallu dod allan achos weles i ddim sleid, ond ta waeth.

Yr unig beth da am hyn i gyd ydi mod i wedi cael mynd i aros hefo Anti Swsi neithiwr, dwi'n cael fy sbwylio'n racs gan Anti Swsi. Mi gawson ni chips i swper a hufen ia efo sôs siocled a malws melys i bwdin ...mmmm!! lym! Do'n i ddim awydd dod adre, ond adre ddes i.

"Tyd i mewn Nans, tyd i weld dy chwaer newydd!"

Chwaer?

"Sbia Nans...sbia arni hi, yndydi'n ddigon o sioe! Ti am afael ynddi?"

Nachdw i.

Ond mae Dad yn pigo'r peth'ma i fyny ac yn ei rhoi hi yn fy mreichiau.

Wel am hyll. Does gan y peth'ma ddim blewyn o wallt ar ei phen ac mae 'na smotie gwyn dros ei gwyneb hi'n bob man. Ydi hon go iawn yn ferch? Fydd y peth'ma methu gwisgo dim un clip gwalld sbarcli.

Yr eiliad ma'r peth ma yn fy mreichiau mae ei cheg hi'n lled agored a mae'r sgrechiadau mwya' annifyr i'w clywed.

Dydi'r crio ddim yn sdopio.

"Bwww

hww

bwww

hwww!"

Yr unig beth ma hi'n neud ydi crio, sugno bwbis Mam a wedyn cysgu. Ooo...a ma' angen newid clwt hefyd, a ma hwnnw fel drychiolaeth! Pam ar wyneb y ddaear fod Mam a Dad wedi 'neud hyn? Pam troi ein byd ni ben i waered? Be 'nath i Mam a Dad feddwl fod cael peth 'ma yn beichio crio drw'r adeg am fod yn beth da?

"Bwww

hwww

Bwww

hwww!"

O dyma ni - ma'r peth 'ma yn mynnu sylw-unwaith eto!

Mi fuase Disney wedi bod gymaint gwell na hyn.

...

“Y chwech wythnos cyntaf ydi'r anoddaf cofia, ar ôl hynny mae pethau'n gwella!” Dyne udodd Anti Sw wrth Mam ddoe, ond bobl bach ma' hi'n teimlo fel oes ers i'r peth 'ma ddod a chwalu myd i. Ma' Mam wedi blino yn lân, a does genddi ddim gymaint o amser, na chwaith mynedd hefo fi dim mwy, a dim ond Dad sy'n fy rhoi i'n y gwely di mynd.

Dwi dal i feddwl y buase bywyd wedi bod yn haws heb y peth'ma 'fyd, er fod y crio mymryn yn well erbyn hyn, a mae hi wedi bod yn neis cael bobl draw a chael chwarae hefo plant eraill. Mi fydd yn rhaid i mi gofio deud diolch i'r peth'ma am hynny 'fyd, ond ma' pawb yn mynd ymlaen ag ymlaen o hyd amdana i fel y “chwaer fawr” ond dwi'm yn teimlo mod i wedi tyfu lawer, ma'n sgidie ysgol i dal yn ffitio yn iawn, a ma nghôt i'n cau yn ddel amdana i, diolch yn fawr.

Dwi'n eistedd ar y sofffa i wyllo mymryn o deledu efo Mam ac mae peth'ma yma, ym mreichiau Mam, fano mai'n hoffi bod, bob amser. Yn mynu sylw, dro ar ol tro.

“Tyd i eistedd yn nes ata' i i fama Nans” gofynai Mam. Dwi'n closio'n nes at Mam a dwi'n sylweddoli fod gan Mam fraich yn sbar i fi, ac mae hi'n ei lapio amdana i. Ma hyn yn braf.

Ond, o ochr fy llygad dwi'n gweld llygaid bach yn edrych arnai. Dwi'n troi fy mhen i edrych ar y peth 'ma.

Mae ei dwylo bach hi ar agor a'i llygaid led y pen yn aros amdana i. Dwi'n ufuddhau, dwi'n rhoi fy mys yng nghledr ei llaw. Mae hi'n cau ei llaw yn dynn am fy mys i. Mae hi'n gryf! Mae fy mys bach i'n cau yn dwt yn ei llaw hi, bron mae fy mys bach yr un maint a'i llaw hi.

Dwi'n teimlo rhywbeth y tu mewn i mi, teimlad cynnes, fel pili pala bach yn glanio ar fy nghalon. Dwi'n meddwl mai cariad ydi hyn.

Dwi'n gwenu arni hi, ac yn rhoi mwythe i'w llaw bitw bychan. Efallai ei bod hi'n amser i mi gael côt ac esgidiau newydd wedi'r cyfan. Mi ydw i yn chwaer fawr rŵan.

Gaeafu

*Winter is a time of withdrawing from the world...and vanishing from sight;
but that's where the transformation occurs."* Katherine May.

**Chdi yw'r ffin rhwng blynyddoedd.
Chdi yw'r adduned all neb ei chadw.
Chdi yw gwraidd iselder dwfn.
Chdi yw chwyth y gwynt 'dan drws.
Chdi yw'r diflastod wedi'r wyl.
Chdi yw sawl loes galar arall.
Chdi a'th boen yw pob lonawr.**

**Chdi yw gobaith llechen lân.
Chdi yw tynged adduned newydd.
Chdi yw gwnïo'r graith a fu.
Chdi yw agor cil sawl drws.
Chdi yw'r dyddiadur llawn dyddiadau.
Chdi yw'r awch am flwyddyn dda.
Chdi a'th obaith yw pob lonawr.**

Mae hi wedi mwynhau'r gaeaf erioed.
Byddai'n falch o weld cefn yr haf ac yn barod i groesawu'r gaeaf. Pan fyddai pawb
arall yn achwyn am y gaeaf caled a'r tywyllwch trwm mi fyddai hi'n ysu amdano.
Mi fyddai ei chorff yn ymbilio am lonyddwch y gaeaf, ei grafangau'n gryf amdani, yn
ei thynnu i mewn i ddyfnderoedd llwm y misoedd tywyll. Ei nefoedd. Ei noddfa.

Iddi hi mae yna bŵer mewn arafu. Crefai am lonyddwch.
Tymor oer a thawel, y tymor tywyll. Y nosweithiau yn hir a'r dyddiau'n fyr.
Mae hud i'w gaeaf.

Byddai'n cloi y byd allan, gan gilio'n raddol o'r byd.

Y gaeaf yn dyrnu tu allan i'w ffenest.
Cyfle i drwsio, cyfle i fendio.
Dyma'i hamser i ofalu amdani ei hun.
Dyma ei hamser hi, yn ei chornel hi.
Y byd a hithe, yn cael anadlu.

Fel y draenog sy'n chwilota am lecyn, cuddio mae hithe hefyd.
Mae ei byd mewn trwmgwsg o harddwch a thlysni tawel.
Natur y gaeaf yn ei gorfodi i arafu, amser i aros.
Nid yw'n ymladd yn ei erbyn, yn hytrach mae'n ei groesawu.
Edrychai i lygaid storm y gaeaf a'i groesawu at y tân.

Mae llechu yn ei chragen yn gysur oddi wrth finiogrwydd ei stormydd.
Mae gofyn iddi warchod ei hegri, iddi orffwys, i gymryd saib.
Dyma ei chynhaliaeth.

...

Mae tymhorau'n cylchdroi, mae'r byd yn dechrau deffro.

Daw tymor newydd i ddeffro'r tir o'i drwmgwsg.
Wrth i'r diwrnodau ymestyn o'i blaen daw nerth o dlysni llonydd y gaeaf.
Mae fflam tawelwch y gaeaf yn dechrau tanio,
doethineb tyner y gaeaf wedi gadael ei ôl arni hi,
mae hi wedi ufuddhau i'r gaeaf.

Dihunai'n araf.
Dadwisgai ei dail. Dadwisgai ei chroen.
Sibrydai'r gwynt fod tro ar fyd.
Anadlai'r awyr iach i mewn a rhyddhau ei hanadl allan.
Mae hi'n effro, mae hi'n barod.
Mae pŵer mewn gorffwys.
Mae hud mewn naturioldeb.
Ar ôl pob tywyllwch, fe ddaw'r wawr.

Llythyr i ti.

Ni chrëwyd mwy na chariad Mam.

Os oes yna un peth dwi'n hyderus fy mod i wedi ei wneud yn iawn yn fy mywyd, dy fagu di ydi hynny. Dyma lythyr bach i chdi, rhag ofn.

Fy annwyl blentyn,

Fel Mam mae hi'n reddf hollol naturiol i dy warchod di, ond dwi hefyd yn gwybod nad ydi dy warchod oddi wrth bopeth mewn bywyd am wneud dim lles i chdi.

Er fod pob gronyn ohona i eisiau dy warchod a gwneud yn siŵr dy fod yn hapus bob amser, un o'r pethau anodda i mi fel Mam ydi gwybod y byddi di ar ryw ben mewn bywyd yn gorfod dioddef, ac mi gei di dy frifo. Dyna ydi bywyd. Mi gei dy frifo, dy fradychu, mi fyddi di'n unig a mi fydd pobl yn dy siomi, bydd dy galon di'n cael ei thorri, mi fyddi di'n flin ... yn gandryll ... y cwbl lot!

Ond, coelia neu beidio ...ma hynny'n iawn, mae dioddef yn rhan o fywyd, ac mi fyddi di'n iawn, dim ond i chdi fod yn driw i chdi dy hun.

Mae yna amser lle fydd dy fyd yn chwalu, mi fydd popeth yn torri.

Rho gyfle i dy hun wella. Yn dy amser dy hun. Cofia am garedigrwydd. Gwydnwch.

Pan mae'r byd yn troi ben 'i wared, a'r carped yn cael ei dynnu oddi arnat. Pan fydd dy nos di yn hir – y tywyllwch yn ddiddiwedd, mi fydd goleuni – ond mae'n rhaid i ti chwilio amdano. Ar ddiwedd pob diwrnod, meddylia am y fflachiadau o olau a brofaist, bob yn dipyn wrth i ti chwilio am y llygedyn lleiaf o obaith, mi fydd y wawr yn torri. Hyd yn oed ar y diwrnod tywyllaf, mae gronyn o olau yn llechu.

Ceisio gofio am yr hen fersiwn o'th hunan – meddylia am y plentyn bach oedd ti, yn llawn hyder, y plentyn aeddfed yn herio ei hun, cofia am y person arbennig wyt ti heddiw sydd yn cario'r plentyn ifanc yna'n dy boced. Bydda'n falch o bob un fersiwn.

Cer allan i'r byd, blasa, teithia, gwisga –ymgolla yn y byd. Ond paid a cholli dy hun, paid a mynd ar goll. Efallai y bydd amser lle byddi di'n teimlo i ti golli dy hun er mwyn canfod dy hun, ar yr adegau hynny, bydd yn amyneddgar.

Pan fyddi ar goll, cer yn ôl at dy goed – dy wreiddiau sydd 'dan dy draed – dy ardal lle'th fagwyd fydd yn dy sadio, y gwreiddiau dwfn yna fydd gyda ti ar hyd dy oes. Y gwreiddiau sydd yn dy hanfod.

Brigau'r coed ydi dy feddyliau, y meddyliau gwyllt yma sydd yn ymestyn allan am y gwres sydd yn newid ac addasu, dy freuddwydion sydd yn anelu fry am y golau – dy ddyheadau. Ond bydd yn wylidwrus o'r meddwl. Mae'r meddwl yn gallu dominyddu. Os wyt ti am fwydo sothach i dy feddwl, mi fydd dy feddwl yn llanast. Siarada yn glên hefo ti dy hun - mae'r geiriau y byddi di'n eu defnyddio i siarad efo dy hun yn bwerus.

Mi fydd dy weithredoedd dyddiol di yn adlewyrchu'r ffordd wyt ti'n siarad hefo dy hun. Mae dy eiriau di'n siapio pwy wyt ti - felly gwna'n siŵr eu bod nhw'n eiriau da. Hola dy hun yn aml- ydi'r hyn dwi'n ei feddwl am fy helpu, neu am fy anafu i? Dewisia'r geiriau sydd am dy helpu. Dydi'r meddwl ddim yn credu'r hyn sy'n wir, mae'n credu'r hyn sy'n cael ei ailadrodd. Bydda'n ffrind da i ti dy hun – gwna dy ben yn le braf i fyw.

Bonyn y goeden – dyma pwy wyt ti go iawn. Dwi'n dy adnabod yn well na neb. Yn y bonyn yma mae dy enaid a'th ysbryd di. Pan fyddi di'n ansicr, chwilia am dy reddf. Mi wyt ti'n gwybod be ydi'r ateb i'r cwestiwn sydd yn mynd rownd yn dy ben, ymgolla yn dy lais mewnol. Sicrha dy fod yn cau'r byd allanol i ffwrdd, gwranda ar dy lais dy hun. Yr ymwybyddiaeth ofalgar yma – bydd yna i ti dy hun, yn y foment. Creda yn dy ateb, a phaid a'i gwestiynu'n ormodol, dim bwys faint mae'n dy ddychryn di. Mae greddf yn gwybod beth sydd orau i chdi. Dilyn dy reddf.

Mae gen ti bopeth yr wyt ti ei angen, mae gen ti wreiddiau dwfn, dy feddwl cryf, creadigol a'r bonyn fel cwmpawd i dy fywyd. Mi fyddi di'n llawn dail yn yr hydref ac yn y gwanwyn mi fyddi di'n blaguro, byddi di'n datblygu ac yn addasu i fywyd pob un tymor – yn ail-eni ac yn tyfu ... dim ond i ti gofio o bryd i'w gilydd fod angen dod yn ôl at dy goed.

Gwna ffrindiau gyda dy deimladau –paid a'u gwrthod, croesawa nhw, ond dangosa'r drws pan fyddi wedi cael digon o'u cwmni. Paid â bod ofn y teimladau yma –maen nhw'n gwbl naturiol. Gad i'r boen lifo allan, cria. Crio a chrio nes na fydd dagrau. Paid byth ag ymddiheuro am grio.

Aros yn dy gae dy hun – paid edrych gormod ar beth mae dy gymdogion yn ei wneud. Os elli di wneud dy orau a bod yn falch ohonot dy hun –rwyd ti ar y trywydd iawn, paid amau dy hun. Bydd yn dawel hyderus ynot dy hun. Gwna be sy'n iawn – nid be sy'n hawdd, ond be sy'n iawn i ti.

Gorffennol – pennod ydi'r gorffennol, ac nid llyfr yn ei gyfanrwydd. Dysga o'r gorffennol ond paid a byw yna. Gwna'n siŵr dy fod yn byw yn y presennol. Os oes rhywun yn dy bechu neu yn dy amharchu –paid a defnyddio dy dafod, cau y drws a symud ymlaen.

Pan fydd bywyd yn chwipio'i wialen atat –cymer dy amser, i wella ac i gryfhau. Bydd yn ofalgar o'th hun – gwarchod dy hun, edrych ar ôl dy hun. Mae'n iawn i gymryd pethau'n ara deg ac wrth dy bwysau. Mae'n iawn i ti deimlo trueni drosot dy hun – ond dim ond am bwl, paid ac aros yno'n hir. Teimla'r hunan dosturi, teimla'r boen, ond wedyn mae angen symud yn dy flaen.

Yn anffodus, nid ti fydd bob amser yn rheoli'r hyn sydd am ddigwydd i ti, ond ti fydd awdur yr ymateb, i bob sefyllfa – mae'r feiro yna'n dy law di.

Mi fydd pethau gwirioneddol hudolus yn dy fywyd, mi fydd pethau eraill yn dy lorio, ond dy wydnwch di a'th agwedd di fydd yn pennu llwybr dy fywyd.

Mi fydd amseroedd gogoneddus, ond rhai diwrnodau mi fyddi di eisiau cuddio yn dy wely drwy dydd. Er bod yr adegau yma'n teimlo'n drwm a thywyll, yr unig ffordd yw cario ymlaen drwy'r gaeaf tywyll er mwyn canfod y goleuni'r ochr draw – mi ddaw'r wawr. Sut fyddi di'n edrych arnynt – dy ymateb di fydd yn mesur dy gymeriad.

Weithiau yr ymateb gorau fydd dy onestrwydd di. Mi fyddi di angen ffrindiau fydd yn deall, yn dy weld yn sigo ac yn dy godi ar dy draed eto. Cofia siarad, mae siarad yn falm i'r enaid ac i'r galon. Mae siarad yn rhyddhau'r tensiwn o'th gorff, paid a chadw pethau i mewn, mae dy enaid angen lle i anadlu, gad i bethau fynd.

Does 'na ddim byd yn y byd yma'n bendant, mae bywyd yn fregus ac mi all pethau newid dros nos. Ceisia ddeffro yn y bore yn ddiolchgar, beth bynnag fydd yr her o'th flaen – efallai y gallai pethau fod yn well, ond mi allen nhw hefyd fod cymaint gwaeth. Rydw i wedi dy ddysgu ers yn ddim o beth i ddiolch –felly cofia – “ddweud ‘diolch!’”

I gloi, Mae cael bod yn Fam i chdi wedi bod yn fwy na braint, ac mi fydda i'n fythol ddiolchgar amdanat. Dwi'n gobeithio na fydd gen ti fyth syniad o'r heriau sydd wedi ein hwynebu a heb i ti wybod – rwyf wedi ein cario drwy bopeth. Pan fydd dy heriau di o'th flaen, dwi'n gobeithio fy mod wedi dy fagu i fod yn berson llawn cariad a gwydnwch ac i wybod beth bynnag fydd bywyd yn ei daflu atat, - y byddi di'n ddigon siŵr ohonot dy hun i wybod dy fod am ddod drwyddi.

Dyna beth yw hanfod teulu – goresgyn a thyfu, disgyn a chodi, datblygu ac addasu.

Ond does dim angen i mi ddweud hyn, achos mi fydda i yma wrth dy ochr di, drwy bopeth.

Cariad Pur,

Mam

x